



# NDA Monthly Update

January 2020

## Summary

- Views sought on NDA Draft Business Plan
- R&D Direct Research Portfolio report published
- CBE for Sellafield Chief Executive
- Complete: Plutonium transfer from Dounreay
- £8.5 million R&D competition latest
- NDA Chief Executive named as WiN patron
- Satellite data to help nuclear clean-up
- Success for DRS managing director
- Radioactive waste in the spotlight
- Royal visit marks dialogue with Japan
- NDA honours safety excellence
- NDA names new Non-Executive Director
- History made as plants complete defueling
- Daily grind foiled at Chapelcross

## Diary Dates

**Early 2020:** Update of UK Radioactive Waste & Materials Inventory

**14 January:** Space Data Challenge judging at QE2 Centre, London

**29 January:** PhD seminar 2020, Manchester Conference Centre.

**29 January:** WiN UK Annual Conference 2020, London

## NDA seeks views on Business Plan 2020 to 2023

Views are now sought on the NDA's latest Draft Business Plan, which describes the main activities across our estate over the next 3 years and the available funding for them. It also provides a 20-year picture across future years, and significant milestones. The consultation started on 23 December 2019 and closes on 14 February 2020.

[Weblink: Views sought on NDA's latest Business Plan](#)



## NDA Monthly Update: January 2020

### NDA publishes research report 2018 to 2019

The NDA invested approximately £90 million in R&D during 2018 to 2019, which included a separate budget of almost £4 million for the direct commissioning of strategic projects. Details of the directly invested funds are outlined in the newly published Direct Research Portfolio (DRP) 2018 to 2019. The DRP report includes a series of case studies and a list of projects funded.

[Weblink: R&D report details](#)

### CBE for Sellafield Chief Executive

Sellafield Chief Executive Paul Foster was awarded a CBE for services to business in the 2020 New Years Honours list. During his tenure, Paul oversaw unprecedented progress in the mission to make Sellafield safer, sooner and established Sellafield Ltd as a business that delivers more value for money for the taxpayer than ever before. He also oversaw the successful completion of nuclear fuel reprocessing at Thorp. He will leave Sellafield Ltd at the end of January 2020.

[Weblink: New Year honours for Sellafield boss](#)

### Completed: Transfer of Dounreay plutonium to Sellafield

The Dounreay stock of civil separated plutonium is now safely stored at Sellafield following completion of a phased transfer programme involving a range of organisations over a number of years. This means that all significant UK stocks of the material are now at Sellafield, the centre of excellence for plutonium management. The safe, secure management of civil separated plutonium is a priority for the UK government and an important part of NDA strategy. This is a major step forward in decommissioning Dounreay.

[Weblink: Transfer completed](#)

### Consortia in next stage of £8.5 million R&D competition

Two consortia, led by Barrnon and Wood, have reached the next round of an £8.5 million innovation competition that could help decommission highly radioactive facilities at Sellafield. Launched in 2017, the £8.5 million Integrated Innovation in Nuclear Decommissioning competition was funded by the NDA, Innovate UK and BEIS. The successful projects were among five consortia, involving almost 30 organisations, and will now demonstrate their work at Sellafield.

[Weblink: Projects move to next stage](#)

### NDA Chief Executive to be WiN patron

NDA Chief Executive David Peattie is set to become the new patron of Women in Nuclear (WiN), whose mission is to address the industry's gender balance, improving the representation of women in leadership and engaging with the public on nuclear issues. The role of Patron involves



## NDA Monthly Update: January 2020

helping to gain government and industry support, and raising the profile of WiN UK and its objectives.

[Weblink: David Peattie becomes WiN patron](#)

### Satellites set to help clean up nuclear sites

The NDA is collaborating with the UK Space Agency (UKSA) to explore whether data collected by satellites orbiting the earth could be turned into useful insights for the nuclear clean-up mission. The Nuclear Decommissioning Space Data Challenge was launched by the UK Space Agency in November, and is aimed at smaller businesses and academic start-ups. On offer is a prize worth £10,000, sponsored by the NDA, to help the winning concept or prototype product on the journey to market reality. Short-listed applicants will be invited to a judging event in January.

[Weblink: Space data challenge](#)

### DRS Managing Director wins at Women of the Year Awards

Debbie Francis, the Managing Director of NDA rail subsidiary Direct Rail Services, has won the award for 'demonstrating the courage to challenge and make a real difference in a male-dominated industry'. The Women of the Year event, attended by more than 500 people, aims to promote positive female role models who provide inspiration across all areas of society and the business community. Debbie's 'Woman with Edge' award recognises business women who challenge the status quo and understand the road to success is not always straight.

[Weblink: Debbie, a woman with edge](#)

### Radioactive waste in the spotlight

The NDA joined forces with the Nuclear Institute for the Integrated Waste Management Conference 2019, held in Penrith. More than 250 delegates attended the two-day for a packed programme that included panel sessions, exhibitions and a range of speakers including government officials, regulators, supply chain companies, consultants and waste management experts. Earlier this year, the NDA launched its Radioactive Waste Strategy.

[Weblink: Hundreds gather for waste discussions](#)

### Royal visit marks long-standing dialogue with Japan

Her Royal Highness The Princess Royal heard first-hand how the UK and Japan are collaborating on nuclear decommissioning when she attended a reception at the British Embassy in Tokyo. NDA Strategy and Technology Director Dr Adrian Simper was among the presenters discussing the knowledge exchange between the two countries. He also outlined the NDA's commitment to working in partnership with local communities, and the sharing of decommissioning knowledge as Japan continues the clean-up at Fukushima Dai-ichi.

[Weblink: Collaborating on nuclear decommissioning](#)



## NDA Monthly Update: January 2020

### NDA honours safety excellence at top awards

Shining examples of safety and wellbeing in the nuclear industry were honoured at the NDA's awards ceremony. The first Safety and Wellbeing Awards, held in Manchester, recognised the exceptional work being done across the group. Eleven winners picked up awards in front of around 250 people at the ceremony. All were chosen for their achievements and successes in keeping the workforce safe and well.

[Weblink: Safety achievements recognised](#)

### New Non-Executive Director joins NDA Board

The NDA has announced the appointment of Michelle Heath to its Board as an additional Non-Executive Director for a three-year term. Michelle has a 20-year track record in the nuclear industry, focused on waste management, having previously worked for BNFL, Springfields Fuels and Westinghouse Toshiba. She holds an MBA and BSc from Lancaster University.

[Weblink: Welcome to new Non-Executive Board member](#)

### History made as plants complete defuelling

The last nuclear fuel has been safely shipped from Wylfa on Anglesey, and Calder Hall in Cumbria, for reprocessing at Sellafield, marking a major decommissioning milestone for the UK. The completion of defuelling at both former nuclear power stations removes 99% of radioactivity from the sites. Wylfa, the last and largest of the UK's Magnox power station fleet, opened in 1971 and closed in 2015. Calder Hall, by contrast, was the world's first nuclear power station to generate electricity on a commercial scale. Opened by the Queen in 1956 amid a national fanfare, it was hailed as the dawn of the atomic age and led the way for 10 further power stations based on the Magnox design. Electricity generation stopped in 2003.

[Weblink: Wylfa completes defuelling](#)

[Calder Hall completes defueling](#)

### Daily grind foiled at Chapelcross

The daily grind is looking up after foil coffee bags perked up a project to prevent radioactive gases from escaping during work to decommission the nuclear site. The packets – which use technology designed to keep coffee aromas locked in - mean workers can safely seal radioactively contaminated waste into bags so it can be more easily and safely handled. The idea was brewed by experts at the Culham Centre for Fusion Energy in Oxfordshire, and is now being trialled during work to dismantle Chapelcross' former processing plant that had become contaminated with radioactive tritium as a historical legacy of its operations.

[Weblink: Clean-up inspired by coffee bags](#)



# Diweddariad Misol yr NDA

## Ionawr 2020

### Crynodeb

- Gofyn am safbwyntiau ar Gynllun Busnes Drafft yr NDA
- Cyhoeddi adroddiad Portffolio Ymchwil Uniongyrchol R&D
- CBE ar gyfer Prif Weithredwr Sellafield
- Cwblhawyd: Trosglwyddo plwtoniwm o Dounreay
- Y diweddarafr o gystadleuaeth R&D gwerth £8.5 miliwn
- Enwi Prif Weithredwr yr NDA fel noddwr WiN
- Data lloeren i helpu â gwaith glanhau niwclear
- Llwyddiant i reolwr gyfarwyddwr DRS
- Sylw i wastraff ymbelydrol
- Ymweliad brenhinol i nodi deialog â Japan
- NDA yn anrhydeddu rhagoriaeth mewn diogelwch
- NDA yn enwi'r Cyfarwyddwr Anweithredol newydd
- Gwneud hanes wrth i safleoedd gwblhau symud tanwydd
- Ffoil yn rhoi newid ar waith yn Chapelcross

### Dyddiadau i'r Dyddiadur

**Dechrau 2020:** Diweddariad Rhestr Gwastraff a Deunyddiau Ymbelydrol y Deyrnas Unedig

**14 Ionawr:** Barnu Her Data'r Gofod yn y Ganolfan QE2, Llundain

**29 Ionawr:** Seminar PhD 2020, Canolfan Gynadledda Manceinion.

**29 Ionawr:** Cynhadledd Flynyddol WiN UK 2020, Llundain



## Diweddariad Misol yr NDA: Ionawr 2020

### Yr NDA yn gofyn am safbwyntiau ar Gynllun Busnes 2020 i 2023

Gofynnir am sylwadau ar Gynllun Busnes Drafft diweddaraf yr NDA, sy'n disgrifio'r prif weithgareddau ar draws ein hystâd dros y 3 blynedd nesaf, a'r cyllid sydd ar gael ar eu cyfer. Mae hefyd yn cyflwyno darlun 20 mlynedd dros y blynyddoedd i ddod, a cherrig milltir arwyddocaol. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 23 Rhagfyr 2019 a bydd yn dod i ben ar 14 Chwefror 2020.

[Dolen we: Gofyn am safbwyntiau ar Gynllun Busnes diweddaraf yr NDA](#)

### Yr NDA yn cyhoeddi adroddiad ymchwil 2018 i 2019

Roedd yr NDA wedi buddsoddi tua £90 miliwn mewn R&D yn ystod 2018 i 2019, a oedd yn cynnwys cyllideb ar wahân o bron i £4 miliwn ar gyfer comisiynu prosiectau strategol yn uniongyrchol. Mae manylion y cyllid sydd wedi'i fuddsoddi'n uniongyrchol wedi'u hamlinellu yn y Portffolio Ymchwil Uniongyrchol 2018 i 2019 a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r adroddiad Portffolio Ymchwil Uniongyrchol yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos a rhestr o brosiectau a gafodd eu cyllido.

[Dolen we: Manylion yr adroddiad R&D](#)

### CBE ar gyfer Prif Weithredwr Sellafield

Derbyniodd Prif Weithredwr Sellafield, Paul Foster, CBE am wasanaethau i fusnes yn rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd yn 2020. Yn ystod ei gyfnod yn y swydd, bu Paul yn goruchwyllo'r cynnydd digyffelyb yn y genhadaeth i wneud Sellafield yn fwy diogel, yn gynt a sefydlodd Sellafield Ltd fel busnes sy'n cynnig mwy o werth am arian i'r trethdalwr nag erioed o'r blaen. Roedd hefyd wedi goruchwyllo'r gwaith llwyddiannus o gwblhau ailbrosesu tanwydd niwclear yn Thorp. Bydd yn gadael Sellafield Ltd ddiwedd mis Ionawr 2020.

[Dolen we: Anrhydedd y Flwyddyn Newydd i reolwr Sellafield](#)

### Cwblhawyd: Trosglwyddo plwtoniwm Dounreay i Sellafield

Mae stoc Dounreay o blwtoniwm gwahanedig sifil nawr yn cael ei gadw'n ddiogel yn Sellafield ar ôl cwblhau rhaglen trosglwyddo graddol a oedd yn cynnwys amrywiaeth o sefydliadau dros nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn golygu bod pob stoc sylweddol o'r deunydd yn y DU nawr yn Sellafield, y ganolfan ragoriaeth ar gyfer rheoli plwtoniwm. Blaenoriaeth llywodraeth y DU yw rheoli plwtoniwm gwahanedig sifil yn ddiogel, ac mae'n rhan bwysig o strategaeth yr NDA. Dyma gam mawr ymlaen tuag at ddatgomisysu Dounreay.

[Dolen we: Cwblhau trosglwyddo](#)



## Diweddariad Misol yr NDA: Ionawr 2020

### Consortia wedi cyrraedd cam nesaf y gystadleuaeth R&D gwerth £8.5 miliwn

Mae dau gonsortiw, dan arweiniad Barrnon & Wood, wedi cyrraedd rownd nesaf cystadleuaeth arloesi gwerth £8.5 miliwn a allai helpu i ddatgomisiynu cyfleusterau ymbelydrol iawn yn Sellafield. Cafodd y gystadleuaeth Arloesi Integredig mewn Datgomisiynu Niwclear gwerth £8.5 miliwn, a ariennir gan yr NDA, Innovate UK a BEIS, ei lansio yn 2017. Roedd y prosiectau llwyddiannus ymysg pum consortiw, sy'n cynnwys bron i 30 sefydliad, a byddant nawr yn arddangos eu gwaith yn Sellafield.

[Dolen we: Prosiectau'n symud ymlaen i'r cam nesaf](#)

### Prif Weithredwr yr NDA i fod yn noddwr WiN

Bydd Prif Weithredwr yr NDA, David Peattie, yn dod yn noddwr newydd Merched ym Maes Niwclear (WiN), a'i genhadaeth yw mynd i'r afael â chydbwysedd rhwng y rhywiau yn y diwydiant, gwella cynrychiolaeth merched mewn arweinyddiaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion niwclear. Mae rôl y Noddwr yn cynnwys helpu i gael cefnogaeth y llywodraeth a'r diwydiant, a chodi proffil WiN UK a'i amcanion.

[Dolen we: David Peattie yn dod yn noddwr WiN](#)

### Lloerennau i helpu i lanhau safleoedd niwclear

Mae'r NDA yn cydweithio ag Asiantaeth Gofod y DU i weld a oes modd defnyddio'r data sy'n cael ei gasglu gan loerennau sy'n cylchdroi o amgylch y ddaear i gael dealltwriaeth ddefnyddiol ar gyfer yr ymgyrch glanhau niwclear. Lansiodd Asiantaeth Gofod y DU yr Her Data'r Gofod Datgomisiynu Niwclear ym mis Tachwedd, ac mae wedi'i hanelu at fusnesau llai a rhai academaidd newydd. Cynigir gwobr o £10,000, a noddir gan yr NDA, i helpu rhoi'r cysyniad neu'r prototeip ar ben ffordd i'r farchnad. Bydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i ddiwyddiad beirniadu ym mis Ionawr.

[Dolen we: Her data'r gofod](#)

### Rheolwr Gyfarwyddwr DRS yn fuddugol yng Ngwobrau Menywod y Flwyddyn

Mae Debbie Francis, Rheolwr Gyfarwyddwr is-gwmni rheilffordd yr NDA, Direct Rail Services, wedi ennill y wobwr am 'ddangos dewrder i herio a gwneud gwahaniaeth go iawn mewn diwydiant lle mae dynion fwyaf blaenllaw'. Nod digwyddiad Menywod y Flwyddyn, sy'n denu mwy na 500 o bobl, yw hyrwyddo modelau rôl benywaidd positif sy'n ysbrydoli ar draws pob rhan o gymdeithas a'r gymuned fusnes. Mae gwobr 'Woman with Edge' Debbie yn cydnabod merched busnes sy'n herio'r sefyllfa bresennol ac yn deall nad yw'r ffordd at lwyddiant bob amser yn syth.

[Dolen we: Debbie, menyw sydd ar y blaen](#)



## Diweddariad Misol yr NDA: Ionawr 2020

### Sylw i wastraff ymbelydrol

Roedd yr NDA wedi ymuno â Chynhadledd y Sefydliad Niwclear ar gyfer Rheoli Gwastraff Integredig 2019, a gynhaliwyd yn Penrith. Fe ddaeth mwy na 250 o gynrychiolwyr yno dros y ddau ddiwrnod ar gyfer rhaglen lawn a oedd yn cynnwys sesiynau panel, arddangosfeydd ac ystod o siaradwyr gan gynnwys swyddogion llywodraeth, rheoleiddwyr, cwmnïau cadwyn gyflenwi, ymgynghorwyr ac arbenigwyr rheoli gwastraff. Yn gynharach eleni, roedd yr NDA wedi lansio ei Strategaeth Gwastraff Ymbelydrol.

[Dolen we: Cannoedd yn ymgynnull ar gyfer trafodaethau am wastraff](#)

### Ymweliad brenhinol i nodi deialog hir â Japan

Clywodd Ei Mawrhydi, Y Dywysoges Frenhinol, sut mae'r DU a Japan yn cydweithio ar ddatgomisiynu niwclear pan ddaeth i dderbyniad yn Llysgenhadaeth Prydain yn Tokyo. Roedd Cyfarwyddwr Strategaeth a Thechnoleg yr NDA, Dr Adrian Simper, ymysg y cyflwynwyr yn trafod cyfnewid gwybodaeth rhwng y ddwy wlad. Amlinellodd hefyd ymrwymiad yr NDA i weithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol, a rhannu gwybodaeth am ddatgomisiynu wrth i Japan barhau â'r gwaith glanhau yn Fukushima Dai-ichi.

[Dolen we: Cydweithio ar ddatgomisiynu niwclear](#)

### Yr NDA yn anrhydeddu rhagoriaeth mewn diogelwch yn y prif wobrau

Cafodd enghreifftiau gwych o ddiogelwch a lles yn y diwydiant niwclear eu hanrhydeddu yn seremoni wobrwyo'r NDA. Roedd y Gwobrau Diogelwch a Lles cyntaf, a gynhaliwyd ym Manceinion, yn cydnabod y gwaith eithriadol sy'n cael ei wneud ar draws y grŵp. Roedd 11 enillydd wedi derbyn eu gwobrau o flaen tua 250 o bobl yn y seremoni. Roedd pob un ohonynt wedi cael eu dewis am eu cyflawniadau a'u llwyddiannau yng nghyswllt cadw'r gweithlu'n iach a diogel.

[Dolen we: Cydnabod cyflawniadau ym maes diogelwch](#)

### Cyfarwyddwr Anweithredol Newydd yn ymuno â Bwrdd yr NDA

Mae'r NDA wedi cyhoeddi penodiad Michelle Heath i'w Fwrdd fel Cyfarwyddwr Anweithredol ychwanegol am dair blynedd. Mae gan Michelle gefndir cadarn o 20 mlynedd yn y diwydiant niwclear, yn canolbwyntio ar reoli gwastraff, ar ôl gweithio i BNFL, Springfields Fuels a Westinghouse Toshiba cyn hyn. Mae ganddi MBA a BSc o Brifysgol Lancaster.

[Dolen we: Croeso i aelod Anweithredol newydd i'r Bwrdd](#)





## Diweddariad Misol yr NDA: Ionawr 2020

### Gwneud hanes wrth i safleoedd gwblhau symud tanwydd

Mae gweddill y tanwydd niwclear wedi'i gludo'n ddiogel o'r Wylfa ar Ynys Môn, a Calder Hall yn Cumbria, i'w ailbroseu yn Sellafield, ac mae hyn yn nodi carreg filltir bwysig o ran datgomisiynu ar gyfer y DU. Mae cwblhau symud tanwydd yn y ddwy hen orsaf bŵer niwclear yn cael gwared ar 99% o ymbelydredd o'r safleoedd. Cafodd Wylfa, yr olaf a'r mwyaf o fflyd gorsafoedd pŵer Magnox yn y DU, ei agor yn 1971 a'i gau yn 2015. Ar y llaw arall, Calder Hall oedd yr orsaf bŵer niwclear gyntaf yn y byd i gynhyrchu trydan ar raddfa fasnachol. Fe'i hagorwyd gan y Frenhines yn 1956 yng nghanol ffanffer genedlaethol, ac roedd yn cael ei galw'n wawr yr oes atomig a arweiniodd y ffordd ar gyfer 10 gorsaf bŵer arall sydd wedi'u seilio ar ddyluniad Magnox. Rhoddodd y gorau i gynhyrchu trydan yn 2003.

Dolen we: [Wylfa yn cwblhau symud tanwydd](#)

[Calder Hall yn cwblhau symud tanwydd](#)

### Ffoil yn rhoi newid ar waith yn Chapelcross

Mae pethau wedi gwella ar ôl i fagiau coffi ffoil roi hwb i brosiect i atal nwyon ymbelydrol rhag dianc yn ystod y gwaith i ddatgomisiynu'r safle niwclear. Mae'r pcedi – sy'n defnyddio technoleg a ddyluniwyd i gadw arogleuon coffi yn y bag - yn golygu bod gweithiwyd yn gallu selio gwastraff sydd wedi'i halogi'n ymbelydrol mewn bagiau er mwyn ei drin yn haws ac yn fwy diogel. Arbenigwyr yng Nghanolfan Ynni Ymasiad Culham yn Swydd Rhydychen sydd wedi meddwl am y syniad, a bellach mae'n cael ei dreialu yn ystod y gwaith i ddatgymalu cyn safle prosesu Chapelcross sydd wedi'i halogi â thritiwm ymbelydrol fel etifeddiaeth hanesyddol ei weithrediadau.

Dolen we: [Bagiau coffi'n ysbrydoli'r gwaith glanhau](#)